## Y Cyfnod Sylfaen

# Llawlyfr Dysgu yn yr Awyr Agored







Yn yr awyr agored

Outdoors

chwarae • dysgu • tyfu
play • learn • grow
cyfnod sylfaen 3–7 foundation phase



**Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**
**Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

**Cynulleidfa**

Penaethiaid, athrawon, ymarferwyr, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a phwyllgorau rheoli yn y sector nas cynhelir yng Nghymru; awdurdodau addysg lleol; undebau athrawon a chyrff cynrycholi Ysgolion; awdurdodau esgobaethol eglwysi; cyrff cenedlaethol yng Nghymru sydd â diddordeb mwen addysg

**Trsolowg**

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi canllawiau a chyngor I ymarferwyr ar wneud y gorau o'r ardal tu allan I hyrwyddo dysgu effeithiol

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Cangen y Cyfnod Sylfaen
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 6075
Ffacs: 029 2080 1044
E-bost: foundationphaseinfo@wales.gsi.gov.uk

**Copiau ychwanegol**

Ar gael drwy gysylltu:
Ffôn: 029 2082 3835
Neu drwy ymweld â gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru www.cymru.gov.uk

75% wedi'i ailgylchu recycled

ISBN 978 0 7504 5223 6
© Hawlfraint y goron Gorffennaf 2009
CMK-22-07-405
E1380910

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cefndir a Chyflwyniad | 2 |
| Cynllunio eich Darpariaeth Awyr Agored | 3 |
| Rheoli Risg a Dysgu yn yr Awyr Agored | 4-5 |
| Ysgolion Coedwig | 6 |
| Grwpiau Clwstwr Menter Addysg y Coed | 6 |
| Darpariaeth ac Adnoddau | 7 |
| Rheoli Adnoddau a'u Storio | 8-9 |
| Rhieni, Gofalwyr a'r Gymuned | 10 |
| Meysydd Dysgu | 11-13 |
| Arsylwi yn yr Awyr Agored | 14 |
| Cwestiynau Cyffredin | 15-16 |
| Cysylltiadau Defnyddiol | 17-21 |

# Cefndir

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi canllawiau a chyngor i ymarferwyr ar wneud y gorau o'r ardal tu allan i hyrwyddo dysgu effeithiol.

# Cyflwyniad





Mae Cymru'n arwain y ffordd yn y DU o ran datblygu dysgu yn yr awyr agored, a bydd y Cyfnod Sylfaen yn helpu i sicrhau ein bod ar flaen y gad ym maes dysgu trwy brofiadau, y mae dysgu yn yr awyr agored yn elfen hanfodol ohono.

Mae'r awyr agored yn amgylchedd delfrydol ar gyfer dysgu trwy brofiadau, am ei fod yn cynnig cyfleoedd unigryw i fod yn greadigol, i symud o gwmpas, i fod yn swnllyd ac i gymryd risgiau. Mae'r awyr agored yn llawn o sbardunau arbennig fel y tywydd, synau, arogleuon a gweadau sy'n gallu cyfoethogi a gwella amgylchedd dysgu'r plentyn.

Bydd treulio amser yn yr awyr agored yn gwella pob agwedd ar ddatblygiad plant: cymdeithasol, corfforol, creadigol, diwylliannol a phersonol. Bydd plant sydd wedi datblygu'r sgiliau hyn yn dda yn gallu dysgu a chofio'r hyn a ddysgwyd yn well. Bydd plant yn elwa mewn cynifer o ffyrdd pan roddir mwy o bwyslais ar ddefnyddio'r amgylchedd awyr agored yn adnodd ar gyfer dysgu:



- bydd eu hiechyd a'u ffitrwydd yn elwa o redeg, neidio a sgipio y tu allan ac o ddefnyddio teganau ac offer na ellir eu defnyddio dan do;
- mae cyfle i gael profiad uniongyrchol o natur - y ffordd y bydd y tywydd yn newid ac ymateb planhigion ac anifeiliaid i wahanol dymhorau;
- gall datrys problemau ymwneud â phrofiadau real, fel sut i symud boncyffion o un man i fan arall;
- gall plant gael profiad uniongyrchol o agweddau fel cadwraeth a chynaliadwyedd a dod i garu byd natur.

Mae'r Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru yn datgan y dylai amgylchedd y Cyfnod Sylfaen hybu sgiliau darganfod ac annibyniaeth a rhoi mwy o bwyslais ar ddefnyddio'r amgylchedd awyr agored yn adnodd ar gyfer dysgu plant. Fel y gwelwyd yn

lleoliadau/ysgolion peilot y Cyfnod Sylfaen, po fwyaf y bydd addysgwyr yn gweld eu plant yn dysgu yn yr awyr agored, mwya'n y byd y byddant am fod gyda hwy yn yr awyr agored.

Mae mwy i ddysgu yn yr awyr agored na chymryd gweithgareddau dan do a'u cyflawni yn yr awyr agored. Nid amser chwarae i'r plant ydyw. Mae deall y gwahaniaeth hwn yn allweddol i sicrhau arferion da. Agwedd meddwl ydyw yn hytrach na banc o gynlluniau gwersi neu adnoddau. Nid rhywbeth i'w ychwanegu at y Cyfnod Sylfaen yw'r awyr agored: mae'r Cyfnod Sylfaen a'r awyr agored yn anwahanadwy.

Bydd mân welliannau yn rhoi'r cymhelliant a'r hyder i chi gymryd camau pellach pan fyddwch yn barod. Mae'r camau cyntaf hyn yn fannau cychwyn pwysig. Gall y ffordd y defnyddiwch yr hyn sydd gennych eisoes fod yn fwy effeithiol na gwneud newidiadau ffisegol, a bydd wastad rhyw agwedd ar y ddarpariaeth y gallwch ei datblygu ar unwaith. Bydd meddwl am yr hyn yr hoffech i'r plant ei wneud yn hytrach na'r hyn yr hoffech iddynt ei gael yn fan cychwyn da i'r ddarpariaeth.

Dechreuodd lleoliadau/ysgolion â'r ddarpariaeth awyr agored mwyaf bendigedig drwy gymryd camau bach a datblygu dros nifer o flynyddoedd - ac maent yn datblygu eu mannau awyr agored yn barhaus.

Ceisiwch sicrhau bod pob ymarferydd yn eich lleoliad/ysgol yn deall y rhesymeg sydd wrth wraidd eich gweledigaeth ar gyfer y ddarpariaeth awyr agored, fel bod pawb yn gallu gweithredu'n llawn y math o brofiadau y cytunwyd arnynt ar gyfer eich plant.

Nid oes yn rhaid i gynllunio, creu a darparu profiad awyr agored ar gyfer y plant yn eich lleoliad/ysgol fod yn gyfrifoldeb i un neu ddau ymarferydd. Gall rhieni/gofalwyr, teidiau a neiniau a'r gymuned ehangach fod yn werthfawr o ran datblygu a chynnal y profiadau hyn. Ymdrinnir â hyn yn nes ymlaen yn y llyfryn.

# Rheoli Risg a Dysgu yn yr Awyr Agored



Mae darparu a rheoli dysgu yn yr awyr agored yn golygu galluogi plant i gymryd risgiau priodol. Nid yw'n golygu y dylai'r man a ddefnyddir ar gyfer dysgu yn yr awyr agored fod yn rhydd rhag risg, ond dylai'r risgiau y bydd plant yn eu hwynebu yn yr awyr agored fod wedi'u hystyried a'u gwerthuso. Mae wynebu risg dderbyniol yn rhan sylfaenol o ddysgu yn yr awyr agored, a gall helpu i sicrhau na fydd plant yn ceisio gwefr mewn sefyllfaoedd mwy peryglus a neb i'w goruchwylio.

Wrth gwrs nid yw pob risg yn dderbyniol: mae'n bwysig bod gweithgareddau dysgu awyr agored a'r mannau a ddefnyddir yn cael eu hasesu a'u goruchwylio'n ofalus, a rhaid sicrhau bod gweithdrefnau iechyd a diogelwch a hylendid priodol yn cael eu dilyn.

## Pryd y mae risg neu her yn beryglus?

Pan fydd gweithgaredd y tu hwnt i sgiliau symud neu lefel dealltwriaeth plentyn unigol, ceir posibilrwydd y gallai risg neu her fod yn berygl gwirioneddol. Mae gwybodaeth am unigolion yn hollbwysig, oherwydd bydd gan bob plentyn alluoedd gwahanol a gallai risg dderbyniol i un plentyn fod yn risg annerbyniol i blentyn arall.

Dylech eich bodloni eich hun:

- Bod pob plentyn yn gallu cyrraedd deunyddiau neu offer dysgu a chwarae heb orfod ymestyn neu ddringo mewn modd peryglus
- Bod deunyddiau dysgu a chwarae'n cael eu cario a'u storio'n ddiogel
- Bod yr amgylchedd yn cael ei drefnu yn y fath fodd fel ei fod yn darparu cyfle i ddewis rhwng gweithgareddau
- Bod pob ymarferydd yn ymwybodol o'u gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch a bod cymorth cyntaf sylfaenol yn rhan o'u cyfrifoldebau. Mae'n angenrheidiol cofnodi digwyddiadau ynghyd â damweiniau y llwyddwyd i'w hosgoi o drwch blewyn, a bydd angen system ddibynadwy i sicrhau bod cyfathrebu'n digwydd rhwng y lleoliad/ysgol a rhieni/gofalwyr plentyn sydd wedi cael anaf neu y mae damwain a ddigwyddodd i rywun arall wedi effeithio arno. Bydd sicrhau bod rhieni/gofalwyr bob amser yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn helpu i gryfhau eich perthynas â nhw, a gall gwneud hynny fod o gymorth i riant/gofalwyr sy'n ofalus iawn o blentyn deimlo'n hyderus y bydd y plentyn yn ddiogel yn eich gofal chi.

## Galluogi

Mae paratoi plant ar gyfer caffael sgiliau newydd yn gofyn am ymwybyddiaeth o'r gwahanol elfennau sy'n perthyn i'r sgiliau hynny. Felly, byddwch yn barod i rannu tasg yn gamau syml ac esboniwch pam yr ydych yn dewis gweithio mewn modd arbennig. Byddwch yn benodol ynghylch rheolau diogelwch cyn i'r plant ddechrau ymwneud â gweithgaredd newydd.

Dywedwch wrth y plant beth yr ydych yn mynd i'w wneud.

- Gadewch i'r plant eich gwylio chi wrth i chi esbonio agweddau sy'n ymwneud â diogelwch.
- Atebwch gwestiynau a dangoswch luniau neu gyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gyfer y gweithgaredd gan rannu cynghorion, er enghraifft, ynghylch sut i symud o un man i'r llall gyda theclynnau a sut i ofalu amdanynt a'u storio.
- Gadewch iddynt roi cynnig ar y gweithgaredd â chymorth gennych chi.
- Yn raddol, gadewch i'r plant gael cymaint o annibyniaeth ag y gallant ymdopi â hi'n ddiogel.
- Os mai ar gyfer oedolion yn unig y mae rhai gweithgareddau, rhowch resymau clir am hynny i'r plant.

## Delio â damweiniau

Bydd damweiniau'n siŵr o ddigwydd yn yr awyr agored, er gwaethaf pob ymdrech i'w hosgoi. Mae'n bwysig cofio y bydd y digwyddiadau hyn yn helpu i feithrin dealltwriaeth y plant o'r hyn sydd o'u hamgylch, ac yn eu galluogi i lunio barn am beth sy'n ddiogel a beth y'n beryglus. Mae damweiniau felly'n adnodd dysgu amhrisiadwy - cyhyd â bod plant ac ymarferwyr yn dysgu oddi wrthynt.

## Beth y dylech ei wneud

Dylech sicrhau bod gennych weithdrefn i'w dilyn mewn argyfwng, y mae pawb yn ei deall. Dylech ddelio ag argyfwng yn bwyllog ac yn dawel, a dylech ddilyn polisi iechyd a diogelwch eich lleoliad neu'ch ysgol. Dylai'r camau yn y polisi hwnnw gynnwys cofnodi'r digwyddiad cyn gynted ag y bo modd gan gasglu gwybodaeth gan bawb a oedd yn dystion.

Pan fydd y sefyllfa wedi cael ei datrys, dylech werthuso'r hyn a ddigwyddodd a pham. A oedd pob un o'r darpariaethau diogelwch a nodwyd gennych ar waith? A oes angen i chi gyflwyno camau rheoli newydd? Os yw hynny'n briodol, dylech drafod y digwyddiad â'r plant. Beth y maent wedi'i ddysgu o'r digwyddiad? Beth fyddant yn ei wneud yn y dyfodol i sicrhau nad yw hynny'n digwydd iddyn nhw?

## Gwerthuso

Bydd profiadau dysgu eich plant yn yr awyr agored yn newid yn barhaus, a byddwch yn rhoi cynnig ar bethau newydd gyda'ch gilydd. Bydd hynny'n digwydd mewn ardaloedd sy'n newid yn barhaus, a bydd offer newydd, planhigion, amodau'r tywydd a ffactorau allanol eraill i gyd yn cyfrannu mewn gwahanol ffyrdd at natur gweithgareddau chwarae a dysgu'r plant. Felly, mae'n angenrheidiol sicrhau eich bod yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu'r modd yr ydych yn delio â risg.

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn argymell y dylai gweithleoedd gynnal asesiad risg bob blwyddyn. Fodd bynnag, os yw'r modd yr ydych yn defnyddio eich ardal awyr agored yn amrywio o dymor i dymor, gallech chi gynnal asesiad risg bob tymor er mwyn sicrhau bod eich darpariaethau diogelwch bob amser yn adlewyrchu'r datblygiadau diweddaraf.

## Ysgolion Coedwig





Mae dull Ysgolion Coedwig o hybu datblygiad a dysg plant yn cydategu addysgeg y Cyfnod Sylfaen. Mae nifer o leoliadau/ysgolion wedi datblygu eu Hysgolion Coedwig eu hunain, tra bydd eraill yn ymweld â mannau dynodedig yn y gymuned. Arweinir y sesiynau hyn gan arweinydd ysgol goedwig cymwysedig a chynigir profiadau dysgu ymarferol a gweithredol sy'n annog plant i archwilio a herio'u hunain. Bydd hyn yn arwain at ddatblygu hyder a hunan-barch plant a bydd eu gwerthfawrogiad o'u hamgylchedd naturiol hefyd yn cynyddu. Y dysgwyr eu hunain sy'n llywio'r sesiynau hyn, gan ddilyn eu diddordebau a'u dychymyg. Bydd Ysgol Goedwig hefyd yn rhoi cyfle i blant gymryd risgiau a fesurwyd mewn sefyllfa a reolir, a bydd hynny'n caniatáu iddynt archwilio a darganfod yn annibynnol a gwneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â sut i ddelio â sefyllfaoedd a heriau anghyfarwydd.

Mae tair elfen hanfodol i bob 'Ysgol Goedwig'.

- Defnyddio coetir lleol, neu leoliad 'coediog', y byddant yn ymweld ag ef yn rheolaidd dros gyfnod hir.
- Cymhwyster Lefel 3 i arweinwyr Ysgolion Coedwig (naill ai BTEC neu OCN). Daw arweinwyr o amrywiaeth o gefndiroedd, ac yn eu plith mae athrawon, perchnogion coetiroedd, crefftwyr a gweithwyr ieuenctid. Mae'r hyfforddiant yn cyfuno'r wybodaeth ymarferol a damcaniaethol sydd ei hangen i redeg lleoliadau Ysgolion Coedwig â phrofiad ymarferol o gynnal asesiadau risg ac asesiadau effaith ecolegol o safle'r Ysgol Goedwig.
- Ymweliadau rheolaidd â'r un goedwig dros gyfnod estynedig (gan anelu at isafswm o 10 wythnos), er mwyn i ddysgwyr gyfarwyddo â'r safle a datblygu teimlad o berchnogaeth dros yr amgylchedd. Bydd yr ymweliadau hefyd yn rhoi cyfle i arweinwyr adeiladu perthnasoedd ymddiriedus â'r dysgwyr wrth iddynt gyfarwyddo ag anghenion a diddordebau pob plentyn.

## Grwpiau Clwstwr Menter Addysg y Coed

Sefydliad partneriaeth yw Menter Addysg y Coed, a gefnogir gan y Comisiwn Coedwigaeth, ac un o'i dyletswyddau yw cydgysylltu grwpiau clwstwr ar gyfer pob rhan o Gymru.

Bydd grwpiau clwstwr y Fenter, mewn ffordd anffurfiol, yn dod ag unigolion a sefydliadau ynghyd sydd eisiau addysgu eraill am goed a phren, o bosibl drwy Ysgol Goedwig, yn ogystal â'r rhai sy'n berchen neu'n rheoli coedwigoedd neu ddiwydiannau pren cysylltiedig. Gall pawb sy'n dymuno hyrwyddo nodau ac amcanion y Fenter gymryd rhan. Mae pob grŵp clwstwr yn unigryw ac annibynnol, a chânt eu rheoli'n lleol fel y gallant ganolbwyntio ar eu hanghenion lleol.

# Darpariaeth ac Adnoddau



Bydd angen i ymarferwyr feddwl sut y gall plant brofi'r Meysydd Dysgu mewn ffordd mor gyfannol â phosibl yn yr awyr agored. Wrth gynllunio ar gyfer yr awyr agored, bydd angen iddynt roi'r un pwyslais ar sicrhau darpariaeth barhaus, wedi'i chyfoethogi a chyda ffocws ag y byddant ar gyfer gweithgareddau dan do. Gall amgylchedd a gynlluniwyd yn dda ac sy'n llawn adnoddau annog gweithgarwch a arweinir gan blant; ceisiwch gynnig cymysgedd o brofiadau uniongyrchol (fel tyfu) a digon o gyfleoedd chwarae (fel creu safle adeiladu); defnyddiwch chwarae â beiciau i greu pob math o sefyllfaoedd dychmygol fel trwsio ceir, dosbarthu parseli a mynd ar deithiau.

Y ffordd fwyaf effeithiol o fynd ati i gael adnoddau yw meddwl am yr hyn yr hoffech i'r plant ei wneud y tu allan a datblygu banc o adnoddau hyblyg i gefnogi dysgu. Er enghraifft, efallai y byddwch eisiau i'r plant ddysgu am ddeunyddiau a'u nodweddion ac mae adeiladu cuddfannau yn yr awyr agored yn ffordd ardderchog o arddangos hyn. At hynny, gall cuddfannau roi cysgod drwy'r flwyddyn, gallant fod yn lleoedd i'r plant gael tawelwch a chyfle i fyfyrio, a gallant fod yn rhan o sefyllfa chwarae rôl. Mae'r posibiliadau mor ddiderfyn â dychymyg plant.

Mae crisialu a defnyddio natur arbennig yr awyr agored yn agwedd bwysig ar ddysgu a chwarae yn yr awyr agored. Mae'n wahanol, a dyna sy'n bwysig i blant ifanc. Yr awyr agored yw 'ail hanner' yr amgylchedd dysgu a bydd yn rhoi cyfle i blant fod yn ddysgwyr gweithredol. Ymhlith pethau eraill, mae cysylltiad â byd natur (planhigion, cerrig, brigau a mwydod), y tywydd, lle, rhyddid a synau a golygfeydd y byd real i gyd yn gyfleoedd posibl i ddysgu trwy brofiadau yn yr awyr agored. Dylai addysgwyr fanteisio i'r eithaf ar y newidiadau dyddiol, yr ansicrwydd, y syndod a'r cyffro a ddarperir am ddim gan y tywydd, y tymhorau a natur.

# Rheoli Adnoddau a'u Storio





- Rhaid i adnoddau fod ar gael yn rhwydd
- Gallai blychau o fathau arbennig o adnoddau fod yn rhan o'ch darpariaeth barhaus
- Labelwch flychau storio â geiriau a lluniau er mwyn meithrin annibyniaeth y plant

Trwy greu blychau adnoddau, gall deunyddiau rhad, go iawn roi profiadau i blant a arweinir gan yr addysgwr neu'r plant eu hunain.

Bydd angen i ymarferwyr a phlant fod yn gallu cael offer allan yn weddol ddiymdrech a'u rhoi i gadw'n drefnus. Cynlluniwch y storfa awyr agored gan sicrhau ei bod yn sicr ac yn ymarferol ar gyfer eich anghenion. Gallai addysgwyr ystyried cael mwy nag un uned storio (er enghraifft, gall cael un i storio teganau olwynion neu adnoddau mawr yn unig ac un arall ar gyfer adnoddau llai wneud pethau'n haws o lawer). Trefnwch y lle fel bod y plant eu hunain yn gallu tynnu pethau allan, pan fydd eu hangen - a'u rhoi i gadw wedyn. Bydd cael y cynhwysydd cywir yn ei gwneud yn haws i chi gario adnoddau o'r storfa i'r lle y byddwch yn eu defnyddio ac efallai y bydd modd i'r plant ddefnyddio'r adnoddau yn syth o'r cynhwysydd hwn.

Bydd plant wrth eu bodd pan gânt fod yn gyfrifol am offer. Bydd labelu cynwysyddion storio, yn enwedig â lluniau o'r cynnwys, yn helpu i sicrhau bod pethau'n hawdd eu canfod ac yn cael eu dychwelyd i'r lle cywir. Gellir defnyddio hyn fel ffordd ystyrlon o feithrin annibyniaeth plant a'u dealltwriaeth o bwrpas ysgrifennu.

Ni ddylai ymarferwyr ildio i demtasiwn a derbyn teganau neu offer mewn cyflwr gwael am eu bod yn rhoddion - bydd y plant yn llai tebygol o barchu a gofalu am deganau sy'n hen neu wedi torri, a gallant fod yn berygl diangen i iechyd.

**Dyma syniadau ar gyfer blychau:**



Blwch hwyl gyda rhifau - dail rhifau, tapiau mesur, sialciau, cyfrifianellau solar, clipfyrddau, cardiau fflach rhifau, rhifau ac arian plastig (gwych ar gyfer eu claddu yn y lle palu)

Blwch llythrennedd - dail llythrennau, gwrthrychau seiniau cychwynnol (yn dda ar gyfer helfeydd trysor), byrddau gwyn a pheniau, sialciau, cardiau fflach llythrennau, clipfyrddau a phensiliau, pypedau, llyfrau nodiadau, meicroffon plastig, llythrennau plastig (yn dda ar gyfer eu claddu yn y lle palu)

Blwch palu - amrywiaeth o rawiau, tryweli, rhacanau, bwcedi, rhidyllau

Blwch llyfrau - cynhwyswch ddigon o lyfrau ffeithiol i helpu i ateb unrhyw gwestiynau a chefnogi dysgu

Blwch ymchwilio - chwyddwydrau, potiau pryfed, cwpanau plastig gwyn, hambyrddau, fflashlampau, creaduriaid bach plastig

Gellid cael blychau hefyd ar gyfer adeiladu cuddfannau, celf, deunyddiau naturiol, chwarae dŵr a cherddoriaeth a symud (mae rhestri cynnwys ar gael gan LtL Cymru). Beth am greu blychau ar y tymhorau neu'r tywydd fel y gallwch fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd dysgu ac addysgu yn yr awyr agored. Gellir ychwanegu at yr adnoddau sylfaenol hyn drwy gynllunio ac arsylwi ar y plant. Bydd gwylio'r plant yn chwarae a thrafod gweithgareddau gyda hwy yn aml yn eich ysbrydoli i ychwanegu adnoddau a all wella'r dysgu ymhellach.

## Rhieni, Gofalwyr a'r Gymuned





Fel ymarferwyr deallwn bwysigrwydd chwarae yn yr awyr agored i ddatblygiad cyfannol plant: yn gorfforol, yn gymdeithasol, yn emosiynol ac yn ddeallusol. Fodd bynnag, os yw plant i fanteisio i'r eithaf ar eu profiadau yn yr awyr agored mae'n hanfodol bod rhieni a gofalwyr hefyd yn deall eu gwerth. Mae ymchwil yn dangos bod eu hagweddau at brofiadau plant yn hollbwysig o ran datblygu hyder a hunan-barch plant. Bydd profiad awyr agored plant ifanc yn fwyaf effeithiol lle bydd partneriaeth rhwng ymarferwyr, rhieni/gofalwyr a'r gymuned gyfan.

Nid oes yn rhaid i gynllunio a chreu darpariaeth awyr agored eich lleoliad/ysgol fod yn gyfrifoldeb i un neu ddau addysgwr. Gall rhieni/gofalwyr, teidiau a neiniau a'r gymuned ehangach fod yn werthfawr o ran datblygu a chynnal y ddarpariaeth.

Efallai fod gan rieni/gofalwyr ddigon o syniadau ond eu bod yn amharod i'w mynegi. Defnyddiwch ffyrdd gwahanol o fynd at rieni/gofalwyr, i sicrhau eu bod yn ymgysylltu'n weithredol â'r awyr agored. Gallai lleoliadau/ysgolion roi cynnig ar ffyrdd creadigol o gynnwys rhieni/gofalwyr, fel 'coeden syniadau' ar gyfer eu hawgrymiadau, yn ogystal â gofyn iddynt gyfrannu deunyddiau neu helpu i godi arian. Efallai y byddwch am roi sylw arbennig i gynnwys tadau yn y gweithgarwch hwn. Mae rhieni/gofalwyr yn gwerthfawrogi'r gofal a gaiff eu plant gan ymarferwyr ac mae ganddynt ddiddordeb yn ansawdd y ddarpariaeth - dan do ac yn yr awyr agored. Gall staff adeiladu ar eu diddordeb fel bod eu plentyn, a'r plant eraill yn eu gofal, yn cael y cyfle gorau i fwynhau eu hunain a datblygu.

# Meysydd Dysgu

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o sut mae Meysydd Dysgu y Fframwaith y Cyfnod Sylfaen yn cael eu cyfwyno mewn amgylchedd tu allan gyda eglurhad byr oddi wrth ymarferwyr ar yr hyn mae'r plant ei ei wneud.

- **Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol**



Roeddem wrth ein boddau y tu allan. Roeddem yn rhydd i siarad a symud o gwmpas. Fe wnaethom weithio'n galed fel tîm. Yn fwy na dim cawsom foddhad o weld yr hyn yr oeddem wedi'i adeiladu â'r helyg ac o wybod y byddai'n tyfu.

- **Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu**



Fe wnaethom begio geiriau yn y coed a'r llwyni.

Aeth rhai o'r plant ar helfa eiriau cyn mynd ati i ysgrifennu brawddegau gwirion yn defnyddio'r geiriau a ganfuwyd.

Roedd mynd ar helfa eiriau yn hwyl.

- **Datblygiad Mathemategol**



Fe wnaethom rannu'r gwiail helyg yn ôl eu hyd - y talaf a'r byrraf. Aethom ati i fesur y gwiail â ffon fedr a thâp mesur. Roedd rhai o'r gwiail dros 3m o hyd.





Buom yn gweithio mewn parau i fesur y gwiail helyg yn gywir. Yna aethom ati i fesur cylch gan ddefnyddio llinyn 120cm o hyd wedi'i glymu wrth ddarn o bren.

Fe wnaethom ddechrau taflu'r peli at y targedau rhwyd ac adio'r sgorau, ond roedd yn rhy hawdd. Cawsom fod taflu'r peli drwy'r tyllau yn y teiars yn hwyl ac roeddem yn gallu ysgrifennu'r sgorau arnynt hefyd.





- **Datblygu'r Gymraeg**

Aethpwyd â ni i fferm leol, lle y gwelsom lawer o anifeiliaid. Cawsom gyfle i ddysgu eu henwau yn Gymraeg.



Yna, roedd cyfle i wneud lluniau ohonynt.



- **Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**



Buom yn creu maes awyr y tu allan gyda bwrdd a glôb.



Aethom ati i ysgrifennu tocynnau cyn trefnu cadeiriau i greu awyren. Roedd yr un faint o gadeiriau â thocynnau, ac roedd yn rhaid i ni ddod o hyd i'r sedd â'r un rhif â'r tocyn.

- **Datblygiad Corfforol**



Roedd yn rhaid i ni ddefnyddio ein holl nerth i wneud tyllau yn y ddaear gyda'r tyllwr. Fe wnaethom ddefnyddio sgiliau echddygol manwl wrth fesur.

Rydym wrth ein bodd yn chwarae yn y lle palu. Rydym yn chwilio am drysor. Does dim ots gan Mam os dof i adref â thrywsus brwnt.



- **Datblygiad Creadigol**

Fe wnaethom blethu helyg byw i greu cromen brydferth. Plethwyd parau o wiail i wneud y gromen yn gryf.





Defnyddiwyd llawer o ddeunyddiau gwahanol i greu'r paneli hyn i addurno'n lle awyr agored.



# Arsylwi yn yr Awyr Agored



Bydd arsylwi ar blant yn cyflawni gweithgareddau yn helpu ymarferwyr i asesu datblygiad eu sgiliau a'r hyn y gallant ei wneud. Am fod y plant yn aml y tu allan i'w lleoliad/ysgol am amser hir, dylid arsylwi ar eu sgiliau yn yr amgylchedd hwnnw, a'u hasesu, i gael darlun cywir o bob plentyn.



Prif ddiben arsylwi ar blentyn yw penderfynu lle y mae ar y continwwm dysgu, fel y gellir ei helpu i ddatblygu, a nodi unrhyw anawsterau, camddehongliadau neu gamddealltwriaethau. Mae arsylwi yn rhan allweddol o ymarfer pob dydd ymarferwyr a dylid cofnodi'r wybodaeth a gesglir a'i lledaenu i'r holl staff - i hwyluso cynllunio ac asesu yn ogystal ag i helpu i ddatblygu darlun cyfannol da o bob plentyn. O gofio bod rhai plant yn ymddwyn yn wahanol iawn dan do o gymharu â'u hymddygiad yn yr awyr agored, bydd arsylwi arnynt yn y ddau amgylchedd yn cynnig darlun mwy cyflawn o'u personoliaeth, o lefel eu dealltwriaeth ac o'r meysydd lle mae angen help arnynt.

Gellir arsylwi ar blant a chofnodi eu hymdrechion a'u galluoedd mewn nifer o wahanol ffyrdd. Bydd gan wahanol leoliadau/ysgolion ddulliau gwahanol o gasglu a chofnodi gwybodaeth. Fodd bynnag, mae'r rhestr isod yn ddetholiad da o ddulliau y gellir eu defnyddio'n llwyddiannus yn yr awyr agored.

- Llyfrau nodiadau
- Dyddiadur
- Technoleg - camerâu digidol, camerâu fideo, camerâu untro, unedau MP3, recordyddion tâp, dictaffonau
- Labeli gludiog a nodiadau 'post-it'

Wrth gofnodi arsylwadau yn yr awyr agored gallai fod yn syniad da i chi ddiogelu'ch cofnodion mewn bagiau seliadwy; bydd hyn yn help mawr i atal eich cofnodion rhag cael eu chwythu gan y gwynt a/neu lanio mewn pyllau. Bydd ysgrifennu mewn pensil hefyd yn syniad da o ystyried y math o dywydd a gawn fel arfer yn y wlad hon.

# Cwestiynau Cyffredin

## Pa mor hir ddylai sesiwn yn yr awyr agored barhau?

Bydd plant yn dysgu'n well o gael profiadau hir a rheolaidd yn yr awyr agored. Yn aml, gadael i blant symud yn rhydd rhwng y tu fewn a'r tu allan yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu dysgu rhydd sy'n seiliedig ar chwarae. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, gall plant ddilyn eu trwynau i le bynnag y mae eu chwilfrydedd neu eu dychymyg yn eu harwain.

Os nad yw hyn yn bosibl, trefnwch adegau rheolaidd a hir ar gyfer dysgu yn yr awyr agored. Ystyriwch y tywydd a pha offer/dillad y bydd eu hangen ar y plant/ymarferwyr. Gwnewch yn siŵr bod gweithdrefnau clir ar gyfer cymryd egwyl i fwyta neu i fynd i'r tŷ bach.

## Sut alla i gefnogi dysgu yn yr awyr agored?

Trwy ddarparu lle ar gyfer dysgu yn yr awyr agored a thrwy alluogi plant i gael profiadau mewn amgylchedd cyfoethog, naturiol. Adeiladwch ar y ddarpariaeth barhaus hon trwy arsylwi ar ddysgu plant unigol a'i gofnodi, a thrwy roi cyfleoedd i ddatblygu a dysgu sgiliau newydd (cyfoethogi darpariaeth a thasgau â ffocws). Cofiwch ddefnyddio cwestiynau penagored er mwyn annog plant i gyfathrebu yr hyn y maen nhw yn ei wneud.

## Sut ydw i'n gwneud yn siŵr nad yw plant yn gorgyffroi?

Sefydlwch set o reolau syml i'r plant, ac ailadroddwch y rhain bob tro rydych chi'n mynd allan. Cynlluniwch ar gyfer sesiynau hirach a mwy rheolaidd yn yr awyr agored fel bod plant yn dod yn gyfarwydd â dysgu y tu allan. Os oes angen, defnyddiwch weithgaredd corfforol er mwyn i'r plant gynhesu cyn mynd allan ac er mwyn iddyn nhw gael gwared ar beth o'u hegni.

## Sut alla i berswadio rhieni/gofalwyr bod y plant yn dysgu y tu allan, a'i fod yn ddiogel iddynt?

Yn aml, brwdfrydedd y plant yw'r ateb i hyn. Anogwch nhw i'ch helpu chi i baratoi arddangosiadau o'r hyn maen nhw wedi ei ddysgu y tu allan er mwyn dangos i'w rhieni/gofalwyr. Mae llythyrau, cyfarfodydd, diwrnodau agored, sesiynau aros-a-dysgu ac ati hefyd yn ddulliau o gyfathrebu â rhieni/gofalwyr.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnal asesiadau risg rheolaidd a thrylwyr o'ch holl ardaloedd dysgu, gan gynnwys y rhai o dan do ac yn yr awyr agored. Dilynwch y canllawiau cenedlaethol/AALl ar weithdrefnau rheoli risg.

## Pam ddylai plant fynd allan yn y glaw?

Pam lai?! Gall y glaw ddysgu llawer i blant. Mae bod allan yn y glaw yn brofiad sy'n galw ar sawl un o'r synhwyrau ac oherwydd hynny mae'n rhoi llawer o gyfleoedd i ddysgu. Mae hefyd yn rhoi cyfle i ddysgu sawl sgil bywyd, oherwydd rhaid i blant ddysgu sut i gadw'n sych a chynnes. Mae gwaith ymchwil hefyd yn dangos bod plant sy'n mynd allan ym mhob tywydd yn fwy cydnerth.

## Oes angen i blant wisgo menyg wrth drin pridd a thrychfilod?

Dim ond mewn achosion arbennig, ee imiwnedd isel neu eczema difrifol. Fel arall, cuddiwch unrhyw friwiau agored a golchi dwylo ar ôl dychwelyd. Gwnewch reol nad yw plant yn rhoi unrhyw beth yn eu cegau.

## Ydw i angen prynu llawer o offer drud newydd?

Na. Mae'n syniad da buddsoddi mewn dillad awyr agored ar gyfer y flwyddyn gyfan (i blant ac oedolion). Serch hynny, adnoddau naturiol am ddim sy'n rhoi'r profiadau dysgu gorau, ee dail, mwd, glaw. Os ydych chi eisiau cyflwyno adnoddau eraill i'ch dysgu yn yr awyr agored, gallwch wneud hynny'n raddol. Mae llawer o adnoddau ar gael yn rhad, neu am ddim.

## Beth ddylwn i ei wneud os mai dim ond tarmac sydd gan fy lleoliad/ ysgol?

Mae tarmac yn cynnig cyfoeth o gyfleoedd dysgu. Mae'n wyneb delfrydol i dynnu lluniau arno gyda sialc neu baent dŵr, i chwarae gemau addysgol, ac ati.

Os hoffech chi gyflwyno amgylchedd mwy naturiol ar dir eich lleoliad, beth am godi cornel o'r tarmac a'i adael i dyfu'n wyllt? Gallech chi hefyd ddefnyddio potiau a borderi uwch i greu gofod gwyrdd.

Efallai y gallech chi ystyried defnyddio ardaloedd naturiol y tu hwnt i'r lleoliad, ee parciau lleol, coetir sy'n hawdd cyrraedd ato?

## Sut alla i gynnwys fy nghydweithwyr yn fwy effeithiol?

Mae'n bwysig rhannu ethos dysgu yn yr awyr agored. Trefnwch sesiynau adborth i bawb er mwyn rhannu sylwadau, a cheisiwch gynnwys sawl gwahanol math o adborth yn y sesiynau hyn.

# Cysylltiadau Defnyddiol

## Agwedd Ysgol Gyfan at Fwyd a Ffitrwydd

**Cysylltiadau: Ruth Conway**, Pennaeth y Gangen Bwyd mewn Ysgolion 029 2082 3302 Ruth.Conway@wales.gsi.gov.uk a **Sue Bowker**, Pennaeth y Gangen Pobl Ifanc a Phobl Hŷn 029 2082 6105 Sue.Bowker@wales.gsi.gov.uk

Mae'r ysgol yn amgylchedd delfrydol i roi negeseuon positif am fwyta'n iach a gweithgareddau corfforol ac i'w cefnogi drwy ymddygiad addas. Mae'r gwaith a wneir trwy Ysgolion Iach a Blas am Oes yn atgyfnerthu'r Cyfnod Sylfaen, gan roi cyfleoedd i hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi bwyta'n iach a gweithgareddau corfforol yn yr amygylchedd ehangach.

## Partneriaeth Cymru - Dysgu am y Byd Go Iawn

**Cysylltiadau: Claire Fowler**, Pennaeth Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang 01970 832866 Claire.Fowler@wales.gsi.gov.uk a **Jon Gruffydd**, Rheolwr Dysgu Gydol Oes 029 2035 3044 Jon.Gruffydd@rspb.org.uk

Mae **Partneriaeth Cymru - Dysgu am y Byd Go Iawn** yn cynnwys darparwyr allweddol Dysgu Tu Allan i'r Dosbarth a'n prif bwrpas ydy cynorthwyo, hybu a darparu Dysgu Tu Allan i'r Dosbarth yng Nghymru. Credwn y dylai pob plentyn gael mynediad rheolaidd i Ddysgu Tu Allan i'r Dosbarth beth bynnag ydy sefyllfa'r plentyn. Rydym am greu dealltwriaeth well a chydnabyddiaeth o'i werth a'i gyfraniad i Addysg o ran datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang ar bob lefel yn cynnwys y Cyfnod Sylfaen.

## I a Ch/RhaCh/Rhaglenni Teulu

**Cysylltiadau: Sandra Roberts**, Uwch-Reolwr Sgiliau Sylfaenol, 01492 542117 sandra.roberts@wales.gsi.gov.uk a **Geraint Roberts**, Rheolwr Polisi Sgiliau Sylfaenol 01341 421717 geraint.roberts@wales.gsi.gov.uk

Mae'r rhaglen **Iaith a Chwarae** wedi'i chynllunio i roi gwybodaeth i rieni/gofalwyr plant rhwng 0 a 3 oed ac yn canolbwyntio ar gyfathrebu, iaith, llythrennedd a chwarae.

Lluniwyd y rhaglen **Rhifo a Chwarae** i gyd-fynd â'r rhaglen Iaith a Chwarae ar gyfer babanod a phlantos bach. Mae'n canolbwyntio ar iaith mathemateg a chael hwyl gyda rhifau.

Mae **Rhaglenni Teulu** yng Nghymru yn cynnwys rhaglenni a gweithdai sy'n cael eu cynnal ym mhob Awdurdod Addysg Lleol i helpu rhieni i wella'u sgiliau sylfaenol eu hunain a'u hannog yn ôl i ddysgu wrth helpu eu plant.

## Cyngor Chwaraeon Cymru

**Cyswllt: Helen Thomas**, Uwch Swyddog, Datblygu Pobl a Rhaglenni 029 2033 8332 Helen.Thomas@scw.org.uk

Mae **Cyngor Chwaraeon Cymru** yn gweithredu nifer o ffrydiau ariannu sydd yn codi lefel gweithgaredd corfforol a chwaraeon yng Nghymru. Fel rhan o brosiect PESS mae'r Cyngor yn datblygu nifer o ganllawiau i gefnogi'r Cyfnod Sylfaen. Bydd y deunyddiau yma yn rhoi ffocws ar y meysydd dysgu Datblygiad Corfforol, Datblygiad Creadigol a Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.

## Cyngor Celfyddydau Cymru

**Cyswllt: Y Swyddfa Ganolog**, 0845 8734900

Mae **Cyngor Celfyddydau Cymru** yn gyfrifol am ariannu a datblygu'r celfyddydau yng Nghymru ac mae hefyd yn dosbarthu arian y Loteri ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru.

Datgana y Cyngor ei fod am alluogi pob plentyn yng Nghymru i gael cyfleoedd ble gallant gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol ac i brofi a chysylltu gyda chelfyddyd eraill.

## Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau

**Cyswllt: Helen Lyall-Williams**, CyMAL, Cynghorydd Mynediad a Dysgu, 01970 610 244 Helen.lyall.williams@wales.gsi.gov.uk a **Velma Hather**, CyMAL 01970 610233 Velma.Hather@wales.gsi.gov.uk

Un o is-adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru yw **CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru**, sydd yn cefnogi datblygiad gwasanaethau amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd i ateb gofynion yr 21ain ganrif. Mae'r gefnogaeth yma yn galluogi gwasanaethau i ddatblygu partneriaethau gwaith, ehangu cyfranogiad, a datblygu eu hunain fel sefydliadau dysgu drwy nifer o gynlluniau grant, rhaglenni strategol a chyngor arbenigol.

Bydd amryw o wasanaethau amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd yn arddangos yn ystod cynhadledd Cyfnod Sylfaen - Profiadau Dysgu yn yr Awyr Agored.

## Fforwm Coetiroedd ar gyfer Dysgu/Learning Through Landscapes (LTL) Cymru/Comisiwn Coedwigaeth

**Cysylltiadau:**
**Sue Williams**, 01352 910411 sue.williams@forestry.gsi.gov.uk
**Sheena O'Leary**, 029 2088 6842 sheena.oleary@forestry.gsi.gov.uk
**Sarah Ghahremani,** 029 2022 7929 sghahremani@ltl.org.uk

Rôl y **Fforwm Coetiroedd ar gyfer Dysgu** ydy helpu i wneud y defnydd gorau posibl o goedlannau at ddibenion dysgu drwy arwain datblygiadau, gwneud yn siwr eu bod mewn cytgord gydag anghenion dysgu'r gymuned a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau prin.

Mae **LTL Cymru** yn helpu ysgolion ac ysgolion meithrin i wneud y gorau o'u llefydd allanol ar gyfer chwarae a dysgu.

Mae **Tim Coetiroedd ar gyfer Dysgu y Comisiwn Coedwigaeth** yn gweithio yn uniongyrchol gyda grwpiau gan gynnig ymweliadau â'r goedwig sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm, mae'n helpu athrawon, arweinyddion cylchoedd Meithrin ac eraill i ddefnyddio eu coedwigoedd lleol i addysgu, mae'n cefnogi datblygiad Ysgolion Coedwigaeth, ac mae'n cydlynu menter Addysg Goedwigaeth mewn grwpiau clwstwr.

## Cyngor Cefn Gwlad Cymru

**Cyswllt: Gill Bilsborough**, Swyddog Cefn Gwlad Rhanbarthol - Rhanbarth y De
0845 1306229 G.Bilsborough@ccw.gov.uk

Mae **Cyngor Cefn Gwlad Cymru** yn cefnogi amgylchedd a thirwedd Cymru a'i dyfroedd arfordirol fel ffynonellau o gyfoeth naturiol a diwylliannol, fel sylfaen ar gyfer gweithgarwch economaidd a chymdeithasol, ac fel lle ar gyfer cyfleoedd hamdden a dysgu. Ei nod yw gwneud yr amgylchedd yn rhan werthfawr o fywyd pawb yng Nghymru.

Mae'r gwaith bron wedi ei orffen ar wefan newydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru sydd yn cynnwys adnoddau Dysgu. Mae deunyddiau Cyfnod Sylfaen wedi eu datblygu gan grŵp o ysgolion, ymarferwyr addysg tu allan a chynghorwyr.

## Cam wrth Gam/Geiriau Bach

**Cysylltiadau: Lloyd Evans**, Cyfarwyddwr, Cam wrth Gam 01970 639639 lloyd@mym.co.uk, **Sian Wyn Siencyn**, Pennaeth Addysg y Blynyddoedd Cynnar, Coleg y Drindod (Geiriau Bach) S.W.Siencyn@trinity-cm.ac.uk 01267 676798

Cynllun Hyfforddi Cenedlaethol yw **Cam Wrth Gam** sy'n cynnig hyfforddiant tuag at naill ai NVQ Lefel 2 neu 3 mewn Gofal ac Addysg Blynyddoedd Cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae **Geiriau Bach** yn cynnig cyrsiau i weithwyr blynyddoedd cynnar sydd naill ai heb Gymraeg o gwbl neu sydd heb hyder wrth ddefnyddio'r ychydig Gymraeg sydd ganddynt.

## Cynghorwyr y Blynyddoedd Cynnar /Swyddogion Datblygu

**Cysylltiadau:**
**Annette Evans,** 01492 876434 annette.evans@conwy.gov.uk
**Owenna Davies,** 01545 572724 owennad@ceredigion.gov.uk

Y **Cynghorwyr Blynyddoedd Cynnar** sydd yn arwain datblygiadau'r Cyfnod Sylfaen o fewn yr Awdurdodau Lleol. Maent yn gweithio mewn partneriaeth â'r Swyddogion Hyfforddi a Chymorth i sicrhau rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant i benaethiaid ac ymarferwyr o fewn lleoliadau/ysgolion a chynulleidfa ehangach yn cynnwys Llywodraethwyr a chydweithwyr mewn adrannau eraill o fewn eu sefydliadau. Yn ogystal â hyfforddi gyda'r Pecyn Hyfforddiant Cenedlaethol maent yn datblygu deunyddiau cefnogi i ymarferwyr ac yn sicrhau eu bod yn cadw i fyny gyda'r datblygiadau diweddaraf drwy ymchwil a rhannu arfer da.

Mae'r **Swyddogion Datblygu** yn cynnig cyfarwyddyd, cymorth a hyfforddiant i ymarferwyr mewn lleoliadau nas cynhelir sydd yn cael eu hariannu i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen.

## Y Cyfnod Sylfaen - ChwaraeDysguTyfu

www.cymru.gov.uk/cyfnodsylfaen
www.chwaraedysgucymru.gov.uk

Amcan y **Cyfnod Sylfaen** a gyflwynwyd yn stadudol i blant 3 i 4 oed o fis Medi 2008 yw cyfoethogi'r profiadau Dysgu sy'n galluogi plant i fod yn greadigol, defnyddio'u dychymyg a chael hwyl wrth ddysgu.

Caiff plant fwy o gyfleoedd i archwilio'r byd o'u cwmpas a deall sut mae pethau'n gweithio drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau ymerferol sy'n hwyl ac yn berthnasol i lefel eu datblygiad. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn rhoi mwy o bwyslais ar ddysgu drwy brofiad, ymrwymiad gweithredol a defnyddio yr amgylchedd tu allan.

Mae'r ymgyrch ChwaraeDysguTyfu a lansiwyd yn 2007 wedi ei gynllunio i hysbysu rhieni, ymarferwyr a'r cyhoedd o fudd ac amcanion y Cyfnod Sylfaen a darpariaeth Blynyddoedd Cynnar.

## ContinYou Cymru

**Cyswllt: Rose Jones,** 029 2047 8929 rose.jones@continyou.org.uk

Mae **ContinYou Cymru** yn cynnig cyfleoedd i bobl sydd wedi cael y budd lleiaf o addysg a hyfforddiant ffurfiol. Maent yn gweithio gydag amrediad eang o bobl broffesiynol, sefydliadau ac asiantaethau i gyfoethogi yr hyn maent yn wneud i newid bywydau drwy ddysgu.

# Grwpiau Theatr

| | |
|---|---|
| Tim Baker / Anne Plenderleith<br>**Theatr Cymru Clwyd**<br>Yr Wyddgrug<br>Sir y Fflint<br>CH7 1YA<br><br>Ffôn: 01352 756331<br>E-bost: admin@clwyd-theatr-cymru.co.uk | Iola Ynyr / Shirley Owen<br>**Cwmni'r Frân Wen**<br>Yr Hen Ysgol Gynradd Ffordd Pentraeth<br>Porthaethwy<br>Ynys Môn LL59 5HS<br><br>Ffôn: 01248 715048<br>E-bost: post@franwen.com |
| Paul Gibbons / Julia Davies / Gary Meredith<br>**Gwent Theatre**<br>The Drama Centre<br>Pen y Pound<br>Y Fenni NP7 5UD<br><br>Ffôn: 01873 853167<br>E-bost: Gwenttie@uwclub.net | Steve Davis / Sandra Jones<br>**Spectacle Theatre**<br>Coleg Morgannwg Rhondda<br>Llwynypia<br>Tonypandy CF40 2TQ<br><br>Ffôn: 01443 430700<br>E-bost: steve.davis@spectacletheatre.co.uk |
| Ms Geinor Styles / Rachel Lloyd<br>**Theatr Na n'Og**<br>Unit 3<br>Ystâd Ddiwydiannol Millard Road<br>Castell-nedd SA11 1NJ<br><br>Ffôn: 01639 641771<br>E-bost: geinor@theatr-nanog.co.uk | Dee Stott<br>Dawns Powys Dance<br>**Canolfan Dawns Powys**<br>Arlais Road<br>Llandrindod<br>Powys LD1 5HE<br><br>Ffôn: 01597 824370<br>E-bost: powys.dance@powys.gov.uk |
| Jeremy Turner / Mari Rhian Owen /<br>Heledd Mair Evans<br>**Cwmni Theatr Arad Goch**<br>Stryd y Baddon<br>Aberystwyth<br>Ceredigion SY23 2NN<br><br>Ffôn: 01970 617998<br>E-bost: Jeremy@aradcoch.org | Wendy York / Kevin Lewis<br>**Theatr Iolo**<br>Adeilad yr Hen Ysgol<br>Cefn Road, Mynachdy<br>Caerdydd<br>CF14 3HS<br><br>Ffôn: 029 2061 3782<br>E-bost: info@theatriolo.com |